Eisteddfod
a'r Celfyddydau

# EISTEDDFOD YR URDD YNYS MÔN 2026

## PECYN GWYBODAETH I GYSTADLEUWYR
## COMPETITORS INFORMATION PACK

# POBURDD
# 2026

**POBURDD BL. 4 - 6 / YR. 4-6**
**POBURDD BL.7 A DAN 19 OED / YR. 7-19 YRS OLD**

**BEIRNIAD / ADJUDICATOR:**

**RICHARD HOLT (MELIN LLYNON)**

Castell
Howell

*****ENGLISH BELOW ON PAGE 7*****

## Sut i gystadlu?

- Ymaelodwch â'r Urdd drwy wefan y Porth - https://porth.urdd.cymru/
- Cofrestrwch i gystadlu drwy'r linc uchod hefyd cyn y dyddiad cau. Bydd dyddiadau cau rhanbarth yn amrywio o ardal i ardal.

**Dyddiad cau cofrestru PobUrdd 20fed o Hydref**

## Trefn y gystadleuaeth

- Trefnir <u>Rownd Ysgol</u> yn annibynnol yn eich ysgolion neu adran **cyn yr 20fed o Hydref 2025** ar gyfer pob categori oedran. Cyfrifoldeb yr ysgol neu adran yw trefnu lleoliad a beirniad ar gyfer y rownd yma. Gall fod yr un lleoliad, dyddiad a beirniad a Rownd Ysgol CogUrdd. Bydd enillwyr y Rownd Ysgol yn cystadlu yn y Rownd Rhanbarth
- Trefnir <u>Rownd Rhanbarth</u> gan eich Swyddog lleol cyn y **5ed o Ragfyr 2025** ar gyfer pob categori oedran
- Mewn rhanbarthau lle mae hyd at 5 ysgol yn cystadlu, caniateir 2 gystadleuydd o bob ysgol i fynychu'r Rownd Ranbarthol. Pan fo 6 ysgol neu fwy, 1 yn unig o bob ysgol a ganiateir.
- Gwahoddir enillwyr holl Rowndiau Rhanbarth i gystadlu yn <u>Rownd Cenedlaethol</u> PobUrdd yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn rhwng **Mai y 23ain a Mai 29ain 2026.**

| CATEGORI OEDRAN | ROWND | CYSTADLEUAETH |
|---|---|---|
| Blwyddyn 4, 5 a 6 | Ysgol | Cacen dathlu |
| Blwyddyn 4, 5 a 6 | Rhanbarth + Cenedlaethol | Cacen dathlu |
| | | |
| Blwyddyn 7 – 19 oed | Ysgol | Pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru |
| Blwyddyn 7 – 19 oed | Rhanbarth + Cenedlaethol | Pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru |

## POBURDD BLWYDDYN 4, 5 a 6 – Rownd Ysgol

### Cacen dathlu

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr gyflwyno **un cacen dathlu sy'n cynnwys o leiaf dwy haen (layer) gyda llenwad o'u dewis yn y canol. Cacen un 'tier' yn unig.**
- Bydd angen i'r cystadleuwr **baratoi popeth o flaen llaw** - pobi y gacen a'i haddurno adref. **Dim ond cyflwyno'r gacen ar ddiwrnod y gystadleuaeth bydd angen**
- Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich ryseitiau
- Byddwch yn fentrus ac yn greadigol gyda blas y gacen fel bod hi'n sefyll allan!

## POBURDD BLWYDDYN 4, 5 a 6 – Rownd Rhanbarthol

### Cacen dathlu

Rhaid cyflwyno'r un gacen <u>ymhob rownd</u>

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr gyflwyno **un cacen mawr dathlu sy'n cynnwys o leiaf dwy haen (layer) gyda llenwad o'u dewis yn y canol. Cacen un 'tier' yn unig.**
- Bydd angen i'r cystadleuwr **baratoi popeth o flaen llaw** - pobi y gacen a'i haddurno adref. **Dim ond cyflwyno'r gacen ar ddiwrnod y gystadleuaeth bydd angen**
- **Bydd y beirniad o bosib yn gofyn cwestiynau ar y broses o bobi ac addurno'r gacen i'r cystadleuwyr felly mae na ddisgwyl i'r cystadleuwyr fod yn bresennol yn ystod y gystadleuaeth**
- Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich ryseitiau
- Byddwch yn fentrus ac yn greadigol gyda blas y gacen fel bod hi'n sefyll allan!

## POBURDD BLWYDDYN 4, 5 a 6 – Rownd Cenedlaethol

### Cacen dathlu

Rhaid cyflwyno'r un gacen <u>ymhob rownd</u>

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr **bobi ac addurno un cacen mawr dathlu sy'n cynnwys o leiaf dwy haen (layer) gyda llenwad o'u dewis yn y canol. Cacen un 'tier' yn unig.**

- **Ni fydd hawl i'r cystadleuwr baratoi unrhyw beth o flaen llaw.** Bydd angen **pobi ac addurno y gacen dathlu ar ddiwrnod y gystadleuaeth** o fewn y **120 munud** a roddir**.** Bydd na **15 munud** yn cael ei rhoi cyn y gystadleuaeth er mwyn gosod y cynhwysion/offer ar eu gorsaf a phwyso cynhwysion **yn unig**

- <u>Alergeddau - Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich rysait</u>

- **<u>Un ffwrn nwy a 6 hob nwy fydd ar gael i bob cystadleuwr</u>**

**Cynhwysion - Bydd rhaid i chi ddod a'ch cynhwysion eich hun i'r Rownd Cenedlaethol**

## Meini Prawf

- Paratoi (defnyddio’r 15 munud yn effeithlon – gosod a phwyso cynhwysion yn unig)
- Sgiliau a Thechnegau Pobi
- Trefn a Rheolaeth Amser
- Cacen gorffennedig (Blas a Chyflwyniad)


*Ni fydd addurniadau bwrdd ac ategolion yn cael eu beirniadu*


## Y gwahaniaeth rhwng haenau a ‘tiers’

Mae **haenau (layers)** yn cyfeirio at tu fewn i gacen, a gall fod rhwng dwy a chwe haen o sbwng, wedi'u gwasgu at ei gilydd gan lenwad cyn cael eu haddurno.

Mae **‘tier’** yn cyfeirio at nifer y cacennau sy'n cael eu pentyrru ar ben ei gilydd, pob un yn llai o faint na’r diwethaf.

**Y briff yw cacen 1 ‘tier’ gydag o leiaf dwy haen a llenwad o'ch dewis.**



## POBURDD BLWYDDYN 7 a dan 19 oed – Rownd Ysgol
## Pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr **gyflwyno pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru i 1 person**
- Bydd angen i'r cystadleuwr **baratoi y pwdin adref**. **Dim ond cyflwyno'r pwdin ar ddiwrnod y gystadleuaeth bydd angen**
- Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich ryseitiau
- Byddwch yn fentrus ac yn greadigol gyda blas y pwdin fel bod e'n sefyll allan!

## POBURDD BLWYDDYN 7 a dan 19 oed – Rownd Rhanbarthol
## Pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru

Rhaid cyflwyno'r un rysáit ymhob rownd

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr **gyflwyno pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru i 1 person**
- Bydd angen i'r cystadleuwr **baratoi popeth o flaen llaw**. Bydd angen gwneud y pwdin adref. **Dim ond cyflwyno y pwdin ar ddiwrnod y gystadleuaeth bydd angen.**
- **Mae'n bosib y bydd y beirniad yn gofyn cwestiynau i'r cystadleuwyr am y broses o greu'r pwdin, felly mae na ddisgwyl i'r cystadleuwyr fod yn bresennol.**
- Peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich rysait

## POBURDD BLWYDDYN 7 a dan 19 oed – Rownd Cenedlaethol
## Pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru

Rhaid cyflwyno'r un rysáit ymhob rownd

- Bydd gofyn i'r cystadleuwr **greu pwdin sy'n cynnwys cynnyrch o Gymru i 1 person yn ystod y gystadleuaeth**
- **Ni fydd hawl i'r cystadleuwr baratoi unrhyw beth o flaen llaw.** Bydd angen **gwneud y pwdin** o fewn y **120 munud** a roddir**.** Bydd na **15 munud** yn cael ei rhoi cyn y gystadleuaeth er mwyn gosod y cynhwysion/offer ar eu gorsaf a phwyso cynhwysion **yn unig**
- **Alergeddau -** peidiwch a defnyddio cnau o unrhyw fath yn eich rysait
- **Bydd na 1 ffwrn nwy a 6 hob nwy ar gael i bob cystadleuwr**

### Cynhwysion - bydd rhaid i chi ddod a'ch cynhwysion eich hun i'r Rownd Cenedlaethol
### Meini Prawf

- Paratoi (defnyddio'r 15 munud yn effeithlon – gosod a phwyso cynhwysion yn unig)
- Sgiliau a Thechnegau
- Trefn a Rheolaeth Amser
- Pryd gorffennedig (Blas a Chyflwyniad)

*Ni fydd addurniadau bwrdd ac ategolion yn cael eu beirniadu*

## Ystyriaethau Diogelwch ar gyfer y Rownd Cenedlaethol

- Trydan - Hoffwn eich hysbysu bydd rhaid i offer trydanol personol sydd yn cael eu defnyddio yn rownd PobUrdd Cenedlaethol dderbyn tystysgrif PAT cyn cystadlu. Y canllaw yw dylai plant sy'n defnyddio offer trydanol personol ddim fod yn hyn na **6 mlwydd oed** ac mewn cyflwr gweithio da.

## Rheolau'r Gystadleuaeth – Rownd Cenedlaethol

- Caniateir hyd at 120 munud i gwblhau'r dasg pobi ar gyfer bl 4-6 a bl 7 – 19 oed. Caniateir 15 munud ychwanegol ar ddechrau'r dasg i osod cynhwysion/offer allan a mesur cynhwysion **yn unig**

- **Cyfrifoldeb pob cystadleuwr yw dod a chynhwysion eu ryseitiau ar gyfer y Rownd Cenedlaethol.**

- Alergeddau – **Ni fydd hawl gyda'r cystadleuwyr gynnwys unrhyw fath o gnau yn eu ryseitiau. Hefyd, bydd angen i bob cystadleuwr lenwi ffurflen iechyd cyn cystadlu yn y rownd Rhanbarthol a Chenedlaethol**

- Glendid **-** Rhaid golchi a chadw'r ardal goginio yn daclus drwy gydol y gystadleuaeth

- Cyflwyniad Terfynol – Bydd y beirniad yn gwneud ei b/phenderfyniad yn seiliedig ar ansawdd a chyflwyniad y bwyd yn unig. Ni fydd ategolion neu osodiadau bwrdd yn cael eu beirniadu.

- Bydd yr Urdd yn darparu bwrdd, hob nwy, ffwrn nwy, oergell, gril, pwyntiau trydan, sinc a tap dwr twym/oer i bob cystadleuwr yn y rownd Cenedlaethol. **Bydd angen i'r cystadleuwyr ddod a gweddill yr offer a'u cynhwysion gyda nhw i'r Rownd Cenedlaethol**

- Ffedog – cofiwch ddod a ffedog gyda chi i'r Rownd Cenedlaethol

## 'Top Tips' i gystadleuwyr ar gyfer y Rownd Cenedlaethol

- Cymorth wrth gystadlu **-** Peidiwch a bod ofn gofyn am help wrth y staff neu arolygwyr os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth wrth goginio/bobi.

- Diogelwch **–** Dylid talu sylw at ddiogelwch bwyd a glanweithdra drwy'r adeg. Byddwch yn saff a byddwch yn ymwybodol o eraill o'ch cwmpas

- Ymarfer – Dylid ymarfer cyn y gystadleuaeth i sicrhau eich bod yn osgoi anawsterau neu broblemau yn ystod y gystadleuaeth.

- Rheolaeth Amser – Dylid sicrhau rheolaeth amser drwy gynllunio amseriad pob dim o flaen llaw - o'r coginio/pobi i'r cyflwyno

## How to compete?

- Become a member of the Urdd via the Porth website - https://porth.urdd.cymru/
- Register to compete in the correct age category before the deadline.

PobUrdd Registration closing date 20th of October

## Order of competition

- A School Round is organised independently in your School or Adran before the **20th of October 2025**. It is the responsibility of the School or department to arrange a location and judge for this round. It can be the same location/date and judge as the CogUrdd school round. School Round winners will compete in the Regional round.
- The Regional round is organised by your local Urdd Community Officer before the **5th of December 2025**
- Winners of all Regional Rounds are invited to compete in the PobUrdd National Round during Eisteddfod yr Urdd Ynys Mon, between **May 23rd and May 29th, 2026**.

| AGE CATEGORY | ROUND | COMPETITION |
|---|---|---|
| Year 4, 5 and 6 | School | A Celebration Cake |
| Year 4, 5 and 6 | Regional + National | A Celebration Cake |
| | | |
| Year 7 – 19 yrs | School | A dessert that includes Welsh produce |
| Year 7 – 19 yrs | Regional + National | A dessert that includes Welsh produce |

## YR 4, 5 and 6 POBURDD – SCHOOL ROUND

### A Celebration Cake

- Competitors will need to present a **1 tier celebration cake with at least 2 layers with a filling of their choice in the middle.**
- Competitors will be expected to **prepare everything before the competition** and bake and decorate the cake at home**. Competitors will only need to present their cake on the day of the competition**
- Do not use nuts of any sort in your recipes
- Be creative and think outside of the box to make your cake stand out!

## YR 4, 5 and 6 POBURDD – REGIONAL ROUND

### A Celebration Cake

Competitors will need to present the same cake in <u>every round.</u>

- Contestants will be expected to **present a 1 tier celebration cake with at least 2 layers with a filling of their choice in the middle.**
- Competitors will need to **prepare everything before the competition.** They will need to bake and decorate the cake at home. **Competitors will only need to present their cake on the day of the competition**
- **The judge may ask the competitors questions about the process of making the cake, so it's important that the competitors are present during the competition**
- Do not use nuts of any sort in your recipes
- Be creative and think outside of the box to ensure your cake stands out!

## YR 4, 5 and 6 POBURDD – NATIONAL ROUND

### A Celebration Cake

Competitors will need to present the same cake in <u>every round</u>

- Contestants will be expected to **bake a 1 tier celebration cake with at least 2 layers with a filling of their choice in the middle.**
- **Competitors will not be allowed to prepare anything before the day of the competition.** Contestants will need to **bake and decorate the cake during the competition** within the **120 minutes** given. **15 minutes** prepraration time will additionally be given to set out and weigh the ingredients **only**
- <u>Allergies - Competitors will not be allowed to include nuts in their recipes</u>
- Competitors will be given 1 gas oven and 6 gas hobs each

**Contestants will have to bring all of their own ingredients to the National Round**


## Criteria


- Preparation (using the 15 minutes before the competition to prep. Set out equipment and weigh ingredients only)
- Baking/ Cooking Skills and Techniques
- Organisational skills and time management
- Finished product (Taste and Presentation)

*Table decorations and accessories will not be judged*

## The difference between layers and tiers

**Layers** refer to the inside of a cake, which can be anywhere between two and six layers of sponge, sandwiched together by a filling before being decorated.
**Tiers** refer to the number of cakes of increasing size that are stacked on top of each other.
**The brief is 1 tier and at least two layers with a filling of your choice**



## YR 7 – 19 YRS POBURDD – SCHOOL ROUND

### A dessert that includes Welsh produce

- Competitors will need to **present a dessert that includes any Welsh produce for 1 person**
- Competitors will be expected to **prepare everything before the competition** and make the dessert at home**. Competitors will only need to present their completed dessert on the day of the competition**
- Do not use nuts of any sort in your recipes
- Be creative and think outside of the box to make your dessert stand out!

## YR 7 – 19 YRS POBURDD – REGIONAL ROUND

### A dessert that includes Welsh produce

Competitors will need to present the same dessert in every round.

- Contestants will be expected to **present a dessert that includes any Welsh produce for 1 person**
- Competitors will need to **make the dessert at home. Competitors will only need to present their dessert on the day of the competition**
- **The judge may ask the competitors questions about the process of making the cake, so it's important that the competitors are present during the competition**
- Do not use nuts of any sort in your recipes

## YR 7 – 19 YRS POBURDD – NATIONAL ROUND

### A dessert that includes Welsh produce

Competitors will need to present the same dessert in every round.

- Contestants will be expected to **make a dessert that includes any Welsh produce for 1 person**
- **Competitors will not be allowed to prepare anything before the day of the competition.** Contestants will need to **make the dessert during the competition** within the **120 minutes** given. **15 minutes** preparation time will additionally be given before the competition to set out and weigh their ingredients **only**.
- Allergies - Competitors will not be allowed to include nuts in their recipes
- **Competitors will be given 1 gas oven and 6 gas hobs each**

**Contestants will have to bring all of their own ingredients to the National Round**

## Criteria

- Preparation (using the 15 minutes before the competition to prep)
- Baking / Cooking Skills and Techniques
- Organisational skills and time management
- Finished product (Taste and Presentation)

*Table decorations and accessories will not be judged*

## Safety Considerations for the National Round

- Personal electrical equipment used in the PobUrdd National round needs to have a PAT certificate before competing. The guideline is that children can use personal electrical equipment if it is no older than **6 years old** and in good working condition.

## Competition Rules – National Round

- Time – Up to 120 minutes are allowed to complete the baking task for yrs 4-6 and yr 7-19 years old. An additional 15 minutes are allowed at the beginning of the task to set and measure ingredients and collect and check equipment **only**

- **It is the competitor's responsibility to bring their ingredients to the PobUrdd National Round.**

- Allergies – **Competitors will not be allowed to cook with any type of nuts. Also, competitors will need to fill in a medical form before cooking if they reach the National round.**

- Cleanliness - The cooking area must be washed and kept tidy for the duration of the competition

- Preparation – No ingredient should be prepared in advance.

- Final Presentation – The judge will make his/her decision on the quality and presentation of the food presented. Accessories or table setting will not be judged.

- The Urdd will provide a workstation, gas oven, gas hobs, fridge, grill, electric points, sink and hot/cold tap in the National round. **Competitors will need to bring the rest of their equipment to the National Round.**

- Apron – remember to bring an apron to the National Round

## 'Top Tips' for competitiors in the National Round

- Help in cooking – Don't be afraid to ask for help from staff / supervisors if you are not sure about anything when cooking/baking.
- Safety – Attention should always be paid to food safety and sanitation. Be safe and be aware of others around you
- Practise – Become accustomed to your recipe. Practice before the competition to ensure that you avoid difficulties or problems during the competition.
- Time Management – Ensure that you use the time given wisely